15.09.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Cyfle i Gymru ffarwelio â Chaerdydd cyn troi sylw at Qatar

Bydd Cymru yn croesawu Gwlad Pwyl i Stadiwm Dinas Caerdydd ar ddydd Sul 25 Medi yn eu gêm olaf cyn Cwpan y Byd FIFA yn Qatar ym mis Tachwedd.

Yng ngêm olaf eu hymgyrch Cynghrair y Cenhedloedd UEFA 2022/23, bydd y Dreigiau yn chwilio am fuddugoliaeth all helpu sicrhau eu lle yng Nghynghrair A, sef haen uchaf y bencampwriaeth.

Ond yn ôl cyn ymosodwr Cymru, Malcolm Allen, sydd yno yn sylwebu ar y gêm ar ran Sgorio Rhyngwladol ar S4C, byddai buddugoliaeth yn hwb sylweddol i'r chwaraewyr a'r cefnogwyr cyn Qatar.

Dywedodd Malcolm: "Bydd gan bawb un llygad ar Qatar, heb os, ond mi fyddan nhw'n cymryd y gêm yma o ddifri hefyd. Bydd o'n gyfle i'r chwaraewyr ffarwelio â'r cefnogwyr cartref ac mi fyddan nhw'n benderfynol o adael ar nodyn positif. 'Da ni angen ennill er mwyn gorffen yn drydydd yn y grŵp, gobeithio, ac osgoi disgyn allan o haen uchaf Cynghrair y Cenhedloedd.

"Dw i'n meddwl nawn ni weld ein tîm gorau yn y gêm Gwlad Pwyl, felly dw i'n disgwyl gweld Brennan Johnson, Dan James, Gareth Bale a Kieffer Moore yn yr ymosod. Mae Aaron Ramsey a Harry Wilson allan hefo anafiadau, felly mae hynny'n rhoi bach o benbleth i Rob Page, ond mae'n gyfle i rywun gamu i fyny i gymryd ei lle. Fe allwn ni weld rhywun fel Ruben Colwill, Jonny Williams, Wes Burns, Sorba Thomas neu Mark Harris yn cael y cyfle i greu argraff."

Fe arwyddodd Rob Page cytundeb newydd pedair mlynedd i aros fel rheolwr Cymru ac mae Malcolm yn grediniol mai Page yw'r dyn gorau i arwain Cymru i Qatar a thu hwnt.

"Does dim amheuaeth gen i bod Rob yn haeddu'r cytundeb. Mewn 26 gêm, mae o wedi ennill 10, cael naw gêm gyfartal a cholli saith. Mae o wedi arwain ni at 16 olaf yr Euros, ennill dyrchafiad i lefel uchaf Cynghrair y Cenhedloedd, ond yn fwy na dim – mae o wedi arwain ni at Gwpan y Byd.

"Mae ganddo gymeriad digyfaddawd ac mae o'n casáu colli. Mae ganddo berthynas gwych efo'r chwaraewyr ac mae o wedi profi ei hun fel arweinydd awdurdodol. Ond yn bwysicach oll, mae o'n Gymro balch iawn ac mor falch i fod yn reolwr dros ei wlad."

**Gwyliwch Cymru v Gwlad Pwyl yn fyw ar S4C am 7.15yh ar nos Sul 25 Medi. A cofiwch dilyn Cymru ar bob cam o'u taith yn Qatar, yn fyw ar S4C.**

**Sgorio Rhyngwladol: Cymru v Gwlad Pwyl**
**Nos Sul 25 Medi, 7.15, S4C**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

15.09.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Chance for Wales to bid Cardiff a fond farewell before Qatar

Wales welcome Poland to the Cardiff City Stadium on Sunday 25 September in their last game before the FIFA World Cup kicks off in Qatar in November.

In their final 2022/23 UEFA Nations League fixture, the Dragons will hope for a victory which could keep their place in Conference A, the competition's highest tier.

But a victory would also serve as a timely confidence boost to the players and supporters, according to former Wales striker Malcolm Allen, who will be commentating on the match as part of S4C's Sgorio Rhyngwladol team.

Malcolm said: "There's no doubt he'll have one eye on the World Cup, but he will be taking this game very seriously. It means a lot to the players because they will be saying goodbye to all our home fans and will be desperate to go out on a high. We need to win to hopefully finish third in the group and to avoid falling out of the top tier of the Nations League.

"I think he will play his best team in the Poland game, so I'm expecting to see the likes of Brennan Johnson, Dan James, Gareth Bale and Kieffer Moore in attack. With Aaron Ramsey and Harry Wilson out injured, there is a bit of a selection dilemma, and we will need a creative player to step up in their absence. But that could be an opportunity for someone like Ruben Colwill, Jonny Williams, Wes Burns, Sorba Thomas or Mark Harris, to put their hand up."

Rob Page recently signed a four-year contact to stay as Wales manager and Malcolm believes that he is the right man to take Wales forward to Qatar, and beyond.

"There's no doubt in my mind that Rob thoroughly deserves his contract," he added.

"He's 26 games in, he's won 10, drawn nine and lost seven, he got us to the last 16 of the Euros, got us promoted to the top tier of the Nations League, but above all else – got us qualified for the World Cup.

"He has character and resilience and he hates losing. There is a great rapport between him and the players and he has proven to be a great leader. Most importantly of all, he's a very, very proud Welshman and proud manager of our country."

**Watch Wales v Poland live on S4C from 7.15pm on Sunday 25 September. Remember to follow Wales throughout their FIFA World Cup journey with live coverage of each match on S4C.**

**Sgorio Rhyngwladol: Cymru v Gwlad Pwyl**
**Sunday 25 September, 7.15pm**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**